
# Ysgrifennodd Iesu yn y Llwch

www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther




O hyd ac o hyd, roedd athrawon pwysig y Deml yn ceisio dod o hyd i ffyrdd i gael gwared ar Iesu oherwydd eu bod yn genfigennus ohono gan fod yr holl bobl yn gwrando arno ac yn ei ddilyn.



Daeth yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid â gwraig oedd wedi gwneud rhywbeth drwg iawn at Iesu er mwyn iddo ei barnu ond yr hyn roedden nhw'n geisio ei wneud mewn gwirionedd oedd cael Iesu i drwbwl.




Roedden nhw eisiau lladd y ddynes drwy luchio cerrig ati. Roedd arni gywilydd ac roedd arni ofn hefyd. Roedd hi'n gwybod ei bod wedi torri un o orchmynion Duw ac y byddai'n cael ei chosbi.



Plygodd Iesu i lawr ac ysgrifennodd yn y llwch. "Pwy bynnag sydd erioed wedi torri gorchmynion Duw sydd â'r hawl i'w barnu hi," meddai Iesu. Yna daliodd ati i ysgrifennu.



Dechreuodd pob un copa walltog deimlo'n euog am y pethau roedden nhw wedi eu gwneud yn anghywir. Does neb yn berffaith. Fesul un dyna nhw'n gadael. Doedd yna neb ar ôl i gondemnio na barnu'r wraig.



Safodd Iesu a gofynnodd i'r wraig, " Ble mae'r bobl oedd yn dy farnu?" Atebodd hithau, "Does yna neb ar ôl, Arglwydd." Yna dywedodd Iesu, "Dydw innau ddim yn dy farnu chwaith."



"Dos adref a phaid ag ymddwyn fel yna eto." Wedi cael maddeuant ac yn rhydd o'i phechod aeth y wraig adref â'i chalon yn llawn llawenydd a gobaith. Roedd Iesu wedi ei hachub ac wedi rhoi bywyd newydd iddi.



Ysgrifennodd Ioan y stori wir hon yn y Beibl. Mae'r hanes yn ein dysgu i beidio â beirniadu a barnu pobl eraill oherwydd does yr un ohonom yn berffaith.